Cyngor Cymuned Y Felinheli yn llwyddo i sicrhau buddsoddiad pellach i'r ardal

Mae Cyngor Cymuned Y Felinheli wedi bod yn llwyddiannus yn derbyn cymorth drwy'r prosiect Cymunedau Cynaliadwy i ddatblygu menter gymunedol. Roedd y syniad a gynigwyd gan y pentref, sef datblygu menter i ddarparu cludiant lleol ar gyfer y pentrefwyr, wedi ennyn cefnogaeth y panel dewis.

Daeth Cyngor Cymuned Y Felinheli, ynghyd a phum cymuned arall yng Ngwynedd, i'r brig allan o 20 o geisiadau drwy broses agored gystadleuol.

Dros gyfnod o ddwy flynedd y prosiect, bydd y gymuned yn elwa o gymorth i ddadansoddi sefyllfa bresennol yr ardal, yr asedau cymunedol sydd ganddynt, datblygu cynlluniau ar gyfer denu gwasanaethau yn ôl i'r stryd fawr a fydd yn sicrhau incwm i'r gymuned leol, ac a fydd wrth gwrs yn eu galluogi i gynyddu cynaladwyedd hir dymor yr ardal.

Dywedodd y Cynghorydd Sian Gwenllian, a fu'n arwain y gwaith ar y cais, "Dyma gyfnod cyffrous i'r pentref, ac rydym yn ymfalchïo yn cin llwyddiant yn sicrhau'r cymorth ymarferol sydd ar gael drwy'r prosiect ynghyd a'r buddsoddiad ariannol o tua £100,000 fydd yn ein cynorthwyo ni fel cymuned i wireddu ein syniadau. Rydym ar hyn o bryd yn edrych ar y posibiliadau o gychwyn menter drafnidiaeth cymunedol fydd yn cyfuno agweddau gwahanol; o gludo pobl i'r feddygfa, i glybiau a chymdeithasau o fewn y pentref, cludo bwyd a chynnyrch lleol i drigolion y pentref ynghyd a sicrhau fod y cerbyd yn rhedeg ar danwydd gwyrdd".

Roedd Gwynedd Watkin, Cadeirydd Is-Grŵp Datblygu Gwledig Partneriaeth Economaidd Gwynedd yn awyddus i nodi, "dyma brosiect arloesol a newydd i'r Bartneriaeth ei gydlynu, ac rydym yn falch o roi cymorth i gymuned fel Y Felinheli sydd yn frwdfrydig dros eu syniadau ac yn barod i ymrwymo i'r gwaith sydd ar y gweill er mwyn sicrhau llwyddiant i'r prosiect. Y gobaith yw wrth gwrs y bydd y prosiect hwn yn torri tir newydd yn y maes datblygu economaidd a safon bywyd yng nghymunedau gwledig y sir".

Ychwanegodd Sioned Morgan, Swyddog Prosiect "Y gobaith ydi y bydd cymuned fel hon yn ei thro yn ysbrydoli cymunedau eraill yng Ngwynedd i ddilyn eu hesiampl."

Dyma brosiect arloesol a chyffrous sydd yn rhan o'r fenter Llwyddo yng Ngwynedd, sef yr enw a roddir ar brosiectau Cynllun Datblygu Gwledig Gwynedd (2007 - 2013) o fewn y sir. Ariennir y prosiect gan Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD) a Llywodraeth Cymru, a chaiff ei gydlynu gan Cyngor Gwynedd ar ran Partneriaeth Economaidd Gwynedd.

Bydd y gwaith caled yn cychwyn yn gynnar yn y flwyddyn newydd, gyda thrafodaethau cychwynnol eisoes wedi cael eu cynnal yn ystod mis Tachwedd a Rhagfyr. Bydd diweddariad cyson o'r gwaith yn ymddangos yn Y Goriad – felly cofiwch ddilyn yr hynt a'r helynt .

Dyma brosiect fydd ym mherchnogaeth chi - trigolion cymuned Y Felinheli. Dyma gyfle i adeiladu ar eich gweledigaeth gan edrych i'r dyfodol a sicrhau pob llwyddiant i'r prosiect.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch a'r Swyddog Prosiect,

Dyma brosiect arloesol a chyffrous sydd yn rhan o'r fenter Llwyddo yng Ngwynedd, sef yr enw a roddir ar brosiectau Cynllun Datblygu Gwledig Gwynedd (2007 - 2013) o fewn y sir. Ariennir y prosiect gan Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD) a Llywodraeth Cymru, a chaiff ei gydlynu gan Cyngor Gwynedd ar ran Partneriaeth Economaidd Gwynedd.

Bydd y gwaith caled yn cychwyn yn gynnar yn y flwyddyn newydd, gyda thrafodaethau cychwynnol eisoes wedi cael eu cynnal yn ystod mis Tachwedd a Rhagfyr. Bydd diweddariad cyson o'r gwaith yn ymddangos yn Y Goriad – felly cofiwch ddilyn yr hynt a'r helynt .

Dyma brosiect fydd ym mherchnogaeth chi - trigolion cymuned Y Felinheli. Dyma gyfle i adeiladu ar eich gwcledigaeth gan edrych i'r dyfodol a sicrhau pob llwyddiant i'r prosiect.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â'r Swyddog Prosiect, Sioned Morgan ar 01286 679628 neu HYPERLINK "mailto:SionedMorgan@gwynedd.gov.uk" SionedMorgan@gwynedd.gov.uk